

Cyfarfod Cyngor Partneriaeth Cymru
10.00-12.00pm, Dydd Iau 10 Mai 2018
Ystafelloedd Cynadledda C & D, Ty Hywel, Bae Caerdydd

Cofnodion

Yn bresennol

Aelodau

Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Y Cyngh Ellen ap Gwynn – Cyngor Sir Ceredigion
Y Gwir Anrh Alun Michael – Cynrychiolydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
Y Cyngh Tudor Davies – Cynrychiolydd Awdurdodau Tân ac Achub
Y Cyngh Mike Cuddy – Cynrychiolydd Cynghorau Cymuned
Ann Lloyd – Cynrychiolydd Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a Byrddau Iechyd Lleol
Owain Wyn – Cynrychiolydd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
Martin Mansfield – Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru

Arsylwyr

Steve Thomas – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Chris Llewelyn – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Peter Davies – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ruth Marks – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Lyn Cadwallader – Un Llais Cymru
Jane Holownia – Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Reg Kilpatrick
Tracey Burke
Claire Germain
Claire Bennett
Debra Carter
Lisa James
Angharad Thomas-Richards

Ymddiheuriadau

Y Cyngh Debbie Wilcox – Cyngor Dinas Casnewydd
Y Cyngh John W Thomas – Cyngor Bro Morgannwg
Y Cyngh Huw Thomas – Cyngor Dinas Caerdydd
Y Cyngh Ieuan Williams – Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyngh Mair Stephens – Cyngor Sir Gaerfyrddin
Y Cyngh Glynog Davies – Cynrychiolydd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
Y Cyngh Aaron Shotton – Cyngor Sir y Fflint
Y Cyngh Rob Stewart – Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Y Cyngh Andrew Morgan – Cyngor Rhondda Cynon Taf

Pwyntiau Gweithredu

1. Ychwanegu diogelwch cymunedol at y Flaenraglen Waith ar gyfer y cyfarfod ar 20 Medi (Paragraff 1.2).

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

- 1.1. Agorodd Ysgrifennydd y Cabinet y cyfarfod drwy groesawu'r aelodau a diolch iddynt am roi o'u hamser.
- 1.2. Trodd Ysgrifennydd y Cabinet yn gyntaf at gofnodion y cyfarfod diwethaf a gofynnodd a oedd unrhyw sylwadau/materion yn codi neu a oedd yr aelodau'n fodlon arnynt. Cododd Alun Michael y flaenraglen waith a gofynnodd a oedd modd ychwanegu diogelwch cymunedol ati gan ei fod yn cyd-fynd â'r agenda partneriaeth ehangach. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet a gofynnodd am gael eitem ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor Partneriaeth ym mis Medi.
- 1.3. Nododd Peter Davies fod WCVA wedi cymryd y camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf i drafod sail gyffredin gyda'r sector Cyngorau Tref a Chymuned; rhoddodd wybod i Ysgrifennydd y Cabinet fod papur ar y ffordd ymlaen mewn perthynas ag agenda cyngorau cymuned a thrydydd sector a rennir yn cael ei lunio. Cytunodd Mike Cuddy fod cyfarfod cadarnhaol wedi'i gynnal.
- 1.4. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod ganddo ddiddordeb yng nghanfyddiadau datblygol yr adolygiad annibynnol sy'n ystyried dyfodol cyngorau tref a chymuned a'r ffordd y gallant chwarae mwy o rôl; roedd yn teimlo y dylai'r pwyslais fod ar gysondeb yn hytrach nag unffurfiaeth ac y byddai synergedd â'r trydydd sector yn allweddol.
- 1.5. Cytunwyd ar y cofnodion ac ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach.

2. Diwygio Llywodraeth Leol

- 2.1 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd wedi cael ei lansio ym mis Mawrth ac y byddai'n parhau hyd at 12 Mehefin. Dywedodd eto ei fod yn ystyried ei bod yn broses gadarnhaol a oedd yn cydnabod pwysigrwydd llywodraeth leol ac yn ceisio ei hatgyfnerthu. Dywedodd fod yr ymateb dros y ddau fis diwethaf wedi bod yn galonogol. Mae wedi clywed pobl yn dweud yn gyffredinol ledled Cymru nad yw'r strwythurau presennol yn addas at y diben, ac nad oes unrhyw ddadleuon dros gadw'r 22 o awdurdodau lleol.
- 2.2 Dywedodd y Cyngor Ellen ap Gwynn y byddai'n dadlau dros gadw ei hawdurdod lleol ei hun fel enghraifft.
- 2.3 Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet drwy ddweud nad oedd unrhyw un wedi dadlau dros gadw'r strwythurau presennol yn ystod ei gyfarfodydd gyda'r arweinwyr a bod awydd i newid

yn amlwg ym mhob un o'r cyfarfodydd hynny. Pa fath o newid oedd y cwestiwn, felly. Soniodd Ysgrifennydd y Cabinet am yr angen i gael mwy o bwerau a symud i ffwrdd oddi wrth y berthynas anaeddfed ar hyn o bryd rhwng llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol. Roedd am weld llywodraeth leol yn cael mwy o annibyniaeth i godi arian, gwario arian a gweithredu. Er hynny, roedd am i'r pŵer hwn gael ei drosglwyddo i lywodraeth leol ddiwygiedig, nid i'r strwythurau presennol.

- 2.4 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn agored i syniadau amgen ond nad oedd wedi gweld cynnig sylweddol arall na llwybr gwahanol i lywodraeth leol gadarn sydd wedi'i grymuso. Os oedd gan unrhyw un unrhyw syniadau eraill, byddai ganddo ddiddordeb eu clywed. Pwysleisiodd ei awydd i gael trafodaeth fwy trylwyr ynghylch y sefyllfa bresennol a chael sgwrs am y sefyllfa ariannol. Roedd yn edrych ymlaen at gael ymateb cadarnhaol i'r ymgynghoriad.
- 2.5 Cytunodd y Cyngh Ellen ap Gwynn fod arian yn brin, ond nododd fod arian ar gael ar gyfer gwaith sy'n cael ei wneud yn rhanbarthol (gan restru addysg, tai a gwasanaethau cymdeithasol). Nid oedd yn credu y byddai dilyn hen batrwm Dyfed unwaith eto yn gweithio am fod Ceredigion yn gweithio gydag ystod o awdurdodau lleol eraill gan ddibynnu ar y pwnc, a dywedodd fod angen hyblygrwydd yn lle hynny er mwyn i Geredigion weithio ym mha ffordd bynnag sy'n gweithio iddo. Dywedodd nad oedd arweinydd Cyngor Sir Gâr nac arweinydd Cyngor Sir Penfro yn cefnogi strwythur 'Dyfed'.
- 2.6 Dywedodd y Cyngh Ellen ap Gwynn fod Ceredigion wedi dioddef pan oedd yn rhan o awdurdod lleol mwy o faint yn flaenorol, a hynny oherwydd y pwyslais ar Goridor yr M4. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet drwy ddweud nad oedd ei brofiad ef o Geredigion yn debyg yn yr oes hon. Cyfeiriodd y Cyngh Ellen ap Gwynn at y ffaith nad oes digon o arian yn cael ei fuddsoddi mewn ysgolion; roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn teimlo bod hyn i'w briodoli i gyfnod o doriadau i lywodraeth leol yn gyffredinol a'i bod yn sefyllfa wahanol.
- 2.7 Dywedodd y Cyngh Ellen ap Gwynn fod llai o arian ar gael i ysgolion, a soniodd am effaith codiadau cyflog. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn bwysig bod arian yn mynd i ysgolion, a thrafododd yr achos dros neilltuo'r gyllideb addysg. Roedd arian ar gyfer y chweched dosbarth yn arbennig yn broblem.
- 2.8 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd yn fodlon caniatáu i bwrs y wlad dalu am wasanaethau anghynaliadwy nac yn fodlon i bobl sy'n gweithio ym maes llywodraeth leol golli eu swyddi er mwyn cynnal system nad yw'n gweithio.
- 2.9 Gofynnodd Ann Lloyd am sicrwydd nad oedd y pwyslais ar roi mwy o awdurdod i lywodraeth leol yn eu hardaloedd yn golygu y caiff llywodraeth leol ddweud wrth bartneriaid eraill beth i'w wneud. Yn lle hynny, dadleuodd o blaid rhoi pwyslais ar 'bartneriaeth briodol'. Tynnodd sylw hefyd at y gwaith caled a wnaed yng Ngwent i feithrin partneriaethau er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb yn yr ardal.

- 2.10 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno. Nododd, yn ei rôl fel AC Blaenau Gwent, ei fod yn clywed sôn am yr anawsterau wrth gyd-drefnu pum corff sydd â blaenoriaethau a pholisïau gwahanol.
- 2.11 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet am egluro mai gweld y system yn methu ydoedd, nid yr unigolion. Roedd o blaid prospectws cadarnhaol o bŵer lleol. Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet, galwyd arno i wneud sylwadau ar benderfyniadau awdurdodau lleol neu geisio ymyrryd, ond nad oedd wedi gwneud hynny. Nid oedd ganddo ddi-ddordeb mewn herio mandad awdurdodau lleol yn eu hardaloedd.
- 2.12 Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod pŵer yn deillio o adnoddau ac y byddai sefydliadau mwy o faint yn gyrff mwy pwerus â mwy o awdurdod a gallu i benderfynu, gweithredu a herio. Roedd am weld yr awdurdodau lleol yn cael y pŵer i weithio gyda byrddau iechyd a chael effaith wirioneddol; ac nid oedd o'r farn bod y pŵer hwn ganddynt ar hyn o bryd.
- 2.13 Dywedodd y Cyngh Mike Cuddy y gallai cynghorau tref a chymuned weithio o fewn unrhyw strwythur sy'n codi. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyfeirio at 'ormes plwyfoldeb', yn yr ystyr bod ofn bod ar eich colled. Dywedodd y Cyngh Cuddy fod ochr gadarnhaol i blwyfoldeb hefyd, sef y pŵer i wneud penderfyniadau'n lleol iawn. Nododd y rôl y gallai cynghorau tref a chymuned ei chwarae wrth ail-lunio gwasanaethau. Nododd y Cyngh Cuddy y byddai angen i'r sector gael y mandad a bod â'r gallu i ymgysylltu.
- 2.14 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno o ran darparu gwasanaethau a oedd yn ffurfio lle ac yn gofalu am bobl leol. Soniodd am bwysigrwydd balchder dinesig a phŵer, gan nodi bod datblygiadau cymdeithasol wedi bod yn seiliedig ar gydweithio'n lleol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi cwrdd ag arweinwyr rhanbarthol a lleol yn hytrach nag arweinwyr cenedlaethol yng Ngwlad Belg a'r Almaen.
- 2.15 Soniodd Ruth Marks am bwysigrwydd amrywiaeth wrth ennyn balchder dinesig a chynnwys pobl ifanc a fyddai'n gweithio, yn pleidleisio ac yn dod yn aelodau etholedig yn y dyfodol. Pwysleisiodd bwysigrwydd cysylltiadau rhwng y cenedlaethau. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn hollbwysig defnyddio pŵer profiad a gweld potensial gwaith rhwng y cenedlaethau i chwyldroi'r ffordd y caiff problemau eu datrys mewn cymuned.
- 2.16 Cyfeiriodd Martin Mansfield at y cysylltiad rhwng balchder dinesig a gwaith teg. Roedd yn pryderu y gallai caledi a mwy o alw ar wasanaethau olygu bod ffocws ar dorri costau a chyfrif pennau a bod effaith 'swyddi teg' a gollwyd ar gymunedau yn cael ei diystyru. Dylai'r pwyslais fod ar y gallu i ddarparu gwaith teg yn y tymor hwy yn hytrach na delio â phwysau cyllidebol tymor byr. Dywedodd ei fod yn falch o weld nad oedd y gwaith a wnaed gan Gyngor Partneriaeth y Gweithlu i ddatblygu dull partneriaeth gymdeithasol wedi bod yn wastraff, a'i fod am i'r syniad o gael dull rheoleiddio gael ei ddatblygu ymhellach.
- 2.17 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno bod angen strwythur cynaliadwy ar gyfer llywodraeth leol sy'n cynnal cyflogaeth a manau gwaith – gan ddefnyddio pwrs y wlad i gynnal cymunedau lle mae diffyg yn y farchnad. Mae angen dod â pholisïau caffael, polisïau economaidd a gwasanaethau cyhoeddus ynghyd.

- 2.18 Nododd y Cyngh Mike Cuddy, mewn perthynas â'r pwynt a wnaed yn gynharach ynghylch amrywiaeth, nad oedd proffil y cynghorwyr mewn cynghorau tref a chymuned wedi newid yn sylweddol, ond bod ystod oedran well mewn sawl cyngor tref, yn ogystal â brwdfrydedd a fyddai'n lleihau os na ellid gweithredu ar hyn.
- 2.19 Dywedodd Owain Wyn mai hwn oedd ei gyfarfod cyntaf fel cynrychiolydd yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, a'i fod wedi bod yn gwrando ar y drafodaeth â diddordeb. Nododd fod y Papur Gwyrdd wedi cael ei gyhoeddi ar yr un pryd â datganiad y Gweinidog dros yr Amgylchedd ar ddyfodol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Dywedodd y byddent yn parhau i gydweithredu, beth bynnag y bydd strwythur llywodraeth leol yn y dyfodol.
- 2.20 Nododd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd unrhyw gynigion yn y Papur Gwyrdd yn ymwneud â'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ond dywedodd ei fod wedi siarad â Gweinidogion eraill am y ffordd ymlaen – gan gynnwys y posibilrwydd o gael math gwahanol o barc cenedlaethol yn y cymoedd. Hoffai weld Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn parhau i gyfrannu at yr ymdeimlad ehangach o hunaniaeth yn ogystal â'r cymunedau yn eu hardaloedd.
- 2.21 Cyfeiriodd Owain Wyn at y cysyniad o drydydd diben i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ac er iddi gael ei chydabod na fyddai hyn yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol, nododd fod awydd i atgyfnerthu eu rôl gymdeithasol ac economaidd.
- 2.22 Dywedodd Alun Michael mai llywodraeth leol oedd partner pwysicaf yr heddlu. Soniodd am ymgynghoriad Pen-y-bont ar Ogwr a'r cysylltiad posibl â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a'r angen i ddod i benderfyniad, gan nodi'r effaith ar y ffordd y mae'r heddlu yn cynllunio ei bolisi gan y byddai penderfyniadau'n deillio o'r canlyniad. Cyfeiriodd hefyd at yr effaith ar rai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan nodi nad oedd yr ansicrwydd wedi atal unrhyw waith cynllunio rhag cael ei wneud ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ond y byddai'n effeithio ar gynlluniau ar gyfer 2019/20. Gofynnodd a oedd unrhyw beth y gellid ei wneud i helpu gyda'r penderfyniad.
- 2.23 Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet drwy ddweud y byddai penderfyniad yn cael ei wneud dros yr ychydig wythnosau nesaf; nododd ei fod wedi trafod hyn gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a bod ymdeimlad clir o gyfeiriad.
- 2.24 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet fod llawer o waith a chyfathrebu'n cael ei wneud ar y cyd, a bod strwythurau ar eu hôl hi o ran ymarfer ar lawr gwlad. Nododd fod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi galluogi awdurdodau lleol i weithio ar y cyd ac wedi dangos unplygrwydd unedau mwy o faint. Cytunodd fod angen sicrwydd o ran y cyfeiriad dymunol a bod angen deall a thrafod y sefyllfa bresennol a'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn fwy.
- 2.25 Dywedodd y Cyngh Ellen ap Gwynn fod cynllun llesiant lleol Ceredigion wedi cael ei lansio, gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn bresennol. Nododd fod y cynllun wedi dod at ei gilydd yn arbennig o dda.

- 2.26 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y broses wedi ymddangos yn syml mewn sawl ardal. Nododd ei fod yn awyddus i weld y cynlluniau a'r amcanion; ac yn gobeithio y bydd gan ardaloedd weledigaethau cyfannol.
- 2.27 Tanlinellodd Ann Lloyd y gallu i weithio ar draws ffiniau, gan nodi bod angen i fyrddau iechyd lleol gydweithio. Nododd fod angen i fyrddau iechyd Aneurin Bevan, Cwm Taf a Phowys gydweithio er mwyn cefnogi Blaenau'r Cymoedd; a bod hyn am nad oes system ffurfiol ar gyfer gwneud hynny.
- 2.28 Awgrymodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai cysoni cynlluniau ar gyfer seilwaith cenedlaethol yn hollbwysig – er enghraifft, cysylltiadau trafnidiaeth priodol a darparu trafnidiaeth gyhoeddus i ysbytai newydd.
- 2.29 Daeth Ysgrifennydd y Cabinet â'r drafodaeth i ben ar ddiwygio llywodraeth leol a symudodd ymlaen i'r eitem nesaf.

3. Cyfraniad plismona at waith partneriaeth yng Nghymru

- 3.1 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i Alun Michael am ei gymorth, gan ddweud ei bod yn braf gallu manteisio ar ei brofiad a'i wybodaeth yn y rôl.
- 3.2 Nododd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol ar y cyd a'r rôl sydd gan wasanaethau cyhoeddus wrth fynd i'r afael â throsteddu a chefnogi pobl sy'n agored i niwed.
- 3.3 Nododd Alun Michael nifer o feysydd lle na allai'r heddlu wneud llawer ar ei ben ei hun ond lle byddai'n cyflawni llawer drwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus eraill – er enghraifft, sicrhau nad yw pobl ifanc yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol a cheisio osgoi rhoi dedfryd o garchar i fenywod drwy ymyrryd pan fyddant yn dechrau troseddu. Cyfeiriwyd yn benodol at gydgytundeb Heddlu De Cymru â'r sector gwirfoddol a gwaith i ymgysylltu â chynghorau tref a chymuned.
- 3.4 Cyfeiriodd Alun Michael at y papur a ddarparwyd a oedd yn nodi i ba raddau y mae gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd popeth a wna'r heddlu ac eithrio darparu gwasanaethau "golau glas", gan nodi nad oedd 70-80% o alwadau yn ymwneud â throstedd ond yn hytrach bod yn agored i niwed. Cyfeiriodd at rôl hanesyddol yr heddlu i atal troseddau ac ymsefydlu mewn cymunedau, a dywedodd fod yr arian i gael Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi helpu'r heddlu yng Nghymru i barhau i fyw yn unol â'r gwerthoedd hynny a phlismona yn y gymuned. Nodwyd bod hyn yn wahanol i heddluoedd eraill yn y DU.
- 3.5 Croesawodd Alun Michael uchelgais Llywodraeth Cymru i ddenu digwyddiadau mawr megis Uwchgynhadledd NATO a rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr, ond nododd fod hyn yn rhoi pwysau ar adnoddau a bod angen paratoi ar eu cyfer mewn partneriaeth.

- 3.6 Nododd Alun Michael fod yr heddlu wedi dewis ymwneud yn weithredol â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, nid yn unig mewn perthynas â throseddu, ond mewn perthynas ag amcanion ehangach hefyd, gan nodi bod popeth yn gysylltiedig â phopeth arall a'i bod yn bwysig gweithio fel un gwasanaeth cyhoeddus.
- 3.7 Symudodd Alun Michael ymlaen i dynnu sylw at rai enghreifftiau lle mae'r heddlu i'w weld yn cyfrannu at waith partneriaeth, sy'n cynnwys:
- Sefydlu "Man Cymorth" yng nghanolfan Abertawe i helpu pobl sy'n agored i niwed ar ôl yfed gormod o alcohol, sy'n cael ei staffio gan staff Ambiwylans Sant Ioan a gwirfoddolwyr o Brifysgol Abertawe;
 - Y gwaith ar drais yn erbyn menywod a merched;
 - Mynd i'r afael â throseddu ymhlith pobl rhwng 18 a 25 oed. Mae adolygiadau cychwynnol wedi tynnu sylw at fanteision ymyrryd yn gynharach pan fydd pobl rhwng 18 a 25 oed yn troseddu a nodi a mynd i'r afael â'r set ehangach o broblemau yn gynharach;
 - Tai – ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod yn agored i niwed – Mae cynllun peilot 'cefnogaeth gan gymheiriaid' mewn tai cymdeithasol yn cael ei dreialu yn Trivallis (Cartrefi RCT) ac Adran Dai Cyngor Caerdydd, a bydd gwerthusiad annibynnol yn cael ei gyflwyno i Rebecca Evans AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio erbyn diwedd mis Mai 2018.
- 3.8 Nodwyd bod rhannu gwybodaeth yn dal i fod yn bwysig ac yn heriol, a bod yn rhaid i wasanaethau cyhoeddus ddod o hyd i ffyrdd gwell o rannu gwybodaeth. Codwyd y ffaith bod anallu sefydliadau i ddadansoddi yn cael effaith ar eu gallu i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth.
- 3.9 Nododd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r Gweinidog Tai ac Adfywio yn cadeirio gweddill y cyfarfod.
- 3.10 Diolchodd y Gweinidog Tai ac Adfywio i Alun Michael am y papur a'r wybodaeth ddiweddaraf, gan nodi'n arbennig y gwaith cyffrous ar brosiect y "Man Cymorth" a diolch i Alun am ei waith ar y broblem tai. Roedd yn gobeithio y byddai'r peilot yn llwyddiannus ac y byddai mewn sefyllfa i'w gyflwyno.
- 3.11 Nododd y Gweinidog Tai ac Adfywio ei bod yn awyddus i gael safbwyntiau'r aelodau ar y ffordd y mae anghenion am dai yn cael eu blaenoriaethu. Roedd yn ymrwymedig i roi sylw i hyn a gweld a ddylid gwneud newidiadau.
- 3.12 Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn awyddus i weithredu mewn ffordd fwy cyfannol mewn perthynas â pholisi, gan nodi bod ymateb sy'n seiliedig ar seilos o hyd i amcanion sefydliadol. Roedd angen bod yn fwy ystwyth wrth ymateb i faterion y mae mwy nag un asiantaeth yn gyfrifol amdanynt, gyda chyrrff yn y sector cyhoeddus yn ysgogi newid.
- 3.13 Dywedodd Alun Michael fod gwasanaethau cyhoeddus yn dod ynghyd o ran yr agenda ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a bod hyfforddiant yn cael ei roi ym mhob heddlu ar y cyd â'r Hwb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Tynnodd sylw hefyd at y gwaith sy'n cael ei wneud yn y de i wneud gwaith y partneriaethau diogelwch cymunedol yn rhan o'r gwaith ehangach sy'n cael ei wneud ar lesiant a bwydo i mewn i waith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

- 3.14 Nododd Alun Michael y byddai'n ddefnyddiol pe gallai Llywodraeth Cymru helpu gydag alinio yn hytrach na dod i lawr drwy seilos – gan gynnwys rhoi'r hyblygrwydd i gyrff cyhoeddus gyflwyno gofynion amrywiol i weithio mewn partneriaeth.
- 3.15 Cytunodd y Gweinidog Tai ac Adfywio, gan nodi bod aelodau ac agendâu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn debyg, a holodd a oedd dadl dros wneud pethau'n symlach.
- 3.16 Dywedodd Ruth Marks fod gwydnwch a pharodrwydd cymunedau ar gyfer digwyddiadau critigol yn broblem. Tynnodd sylw at bwysigrwydd cysylltu partneriaethau gwasanaethau cyhoeddus â'r hyn y mae'r cymunedau eu hunain yn ei wneud i baratoi ac ymateb. Tynnodd sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud yn Lloegr ar barodrwydd cymunedau, a gomisiynwyd gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr ar y cyd â'r Swyddfa Gartref a Swyddfa'r Cabinet. Nododd mai'r Groes Goch oedd y prif bartner elusennol, ac roedd yn teimlo bod hyn yn anwybyddu rôl cymunedau ar lawr gwlad i ymateb i ddigwyddiad. Roedd yn teimlo bod ffyrdd mwy hwylus o weithio mewn partneriaeth yng Nghymru, yn hytrach na gosod un.
- 3.17 Cytunodd Reg Kilpatrick fod y syniad hwn yn gwneud synnwyr ac y gellid gwneud rhywbeth yn gyflymach yng Nghymru yn y maes hwn ac mewn gwasanaethau cyhoeddus yn fwy eang gan ddefnyddio'r partneriaethau diogelwch cymunedol sefydlog sydd ar waith mewn sawl man.
- 3.18 Soniodd Lyn Cadwallader am dai unwaith eto, gan nodi bod ei gefndir yn y maes hwn a bod ganddo gysylltiadau teuluol parhaus â'r maes. Roedd o blaid blaenoriaethu anghenion troseddwr. Nododd fod y broses o rannu gwybodaeth ar y dechrau pan fydd troseddwr wedi gadael y carchar wedi gwella, ond bod angen i'r cymorth parhaus fod yn well a bod angen rhannu gwybodaeth yn well. Dywedwyd ei bod yn bosibl i swyddog tai fynd i eiddo heb wybod bod risg bosibl. Cytunodd y Gweinidog Tai ac Adfywio fod diogelwch pobl sy'n gweithio yn y sector tai yn rhywbeth i gnoi cil drosto.
- 3.19 Dywedodd Alun Michael fod yr heddlu wedi newid y ffordd y mae'n rheoli pobl â phroblemau cyffuriau. Tynnodd sylw hefyd at y cynnydd a wnaed i sefydlu Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol.
- 3.20 Dywedodd Reg Kilpatrick fod system wedi cael ei datblygu er mwyn mapio gwybodaeth am gyfeiriadau sy'n agored i niwed (yn hytrach nag unigolion) a bod y system hon yn ffynhonnell bwerus o wybodaeth y gellid adeiladu arni ac ehangu.
- 3.21 Ymatebodd y Cyng Ellen ap Gwynn i nifer o bwyntiau a godwyd. Nododd fod y bartneriaeth diogelwch cymunedol yng Ngheredigion yn un o is-bwyllgorau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bod y drefn hon yn gweithio'n dda. O ran blaenoriaethu tai, cytunodd y gall fod yn ddefnyddiol i bobl sy'n dod allan o'r carchar; cyfeiriodd hefyd at waith sy'n cael ei

wneud yn ei hardal i gadw troseddwyd ifanc yn lleol. O ran parodrwydd cymunedau i ymdrin â digwyddiadau, gofynnwyd i gymunedau fod yn hunan-wydn. Yn olaf, canmolodd y gwaith ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

- 3.22 Canmolodd y Cyngh Mike Cuddy y ffaith bod cyllid parhaus ar gael ar gyfer Swyddogion Patrolio Diogelwch Cymunedau a'u bod yn adnodd gwerthfawr i ennyn hyder dinesig.
- 3.23 Dywedodd Ann Lloyd fod angen adolygu'r ffordd y caiff cyn-droseddwyd sy'n agored i niwed eu rheoli yn nhermau darparu gwasanaethau iechyd meddwl. O ran Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, dywedodd fod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn cael eu diwygio er mwyn sicrhau y gallent weithio'n well gyda phartneriaid, yn enwedig gwasanaethau cymdeithasol. Yn olaf, dywedodd fod y materion ynglŷn ag ariannu canolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yn y de wedi cael eu datrys, a bod y contract i'w datblygu wedi cael ei roi i Gaerdydd.
- 3.24 Roedd Owain Wyn yn teimlo bod plismona gwledig wedi bod ar goll o'r papur – yn arbennig o ran ymwelwyr ag ardaloedd anghysbell lle nad oes cymunedau a cherbydau mewn ardaloedd o'r fath; er enghraifft, gwaith Mynydda Diogel yn Eryri.
- 3.25 Diolchodd y Gweinidog Tai ac Adfywio i'r aelodau am y drafodaeth.

4. Unrhyw Fater Arall

- 5.1 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r holl aelodau am eu cyfraniadau, a gofynnodd a oedd gan unrhyw un unrhyw fater arall i'w godi.
- 5.2 Ni chodwyd unrhyw fater arall.
- 5.3 Yn olaf, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet wybod i'r aelodau y bydd cyfarfod nesaf Cyngor Partneriaeth Cymru yn cael ei gynnal **ddydd Iau, 20 Medi 2018**. Cadarnhaodd y byddai eitem ar ddiogelwch cymunedol yn cael ei hychwanegu at yr agenda.